

# Cymru – lle chwarae gyfeillgar

Mae Chwarae Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i barhau i flaenoriaethu chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol i ddal ati i gefnogi gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol.

Rydym yn eich annog i wneud ymrwymadau traws-bolisi i sicrhau bod cyfleoedd plant i chwarae'n cynyddu a gwella.



Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- **gydnabod bod rhyddid plant i chwarae'r tu allan yn eu cymunedau lleol yn cael ei atal pan mae ffyrdd yn cael eu rheoli gan yrwyr ceir a thraffig. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy:**
  - gyflwyno cyfyngiad cyflymder diodyn o 20mya mewn ardaloedd adeiledig
  - datblygu canllawiau ar gyfer cynghorau ar sut i gefnogi prosiectau chwarae stryd.
- **cydnabod bod gan ysgolion ran bwysig mewn chwarae plant trwy:**
  - orchymyn cyrff llywodraethu ysgolion i agor eu gofod awyr agored ar gyfer chwarae (ble fo'n ymarferol) ar ôl ysgol ac ar y penwythnos
  - ei gwneud hi'n orfodol i'r diwrnod ysgol gynnwys isafswm penodol o amser ar gyfer egwylliau chwarae.
- **cefnogi trosglwyddiad rhaglen o wybodaeth i'r cyhoedd yn egluro beth yw chwarae a pha mor bwysig yw chwarae i iechyd a lles plant a chymdeithas yn gyffredinol.**
- **cefnogi datblygu mwy o gyfleoedd i blant chwarae trwy:**
  - sicrhau bod pob menter plant a theuluoedd yn cydnabod yn glir a chroyw bod chwarae'n hanfodol, a chefnogi darpariaeth yn y gymuned ar gyfer chwarae, yn cynnwys gwaith chwarae wedi ei staffio
  - cefnogi mentrau i hyfforddi pob person y mae eu gwaith yn effeithio ar blant, fel bod ganddynt well dealltwriaeth o'u rôl wrth sicrhau bod plant yn cael amser a lle i chwarae.
- **ymrwymo i ymateb i'r Adolygiad Gweinidogol cyfredol o Gyfleoedd Chwarae ac i weithredu ei argymhellion, fel bod chwarae plant yn cael ei sefydlu'n gadarn fel mater traws-bolisi.**

## Pennu blaenoriaethau traws-bolisi ar ôl cyfnod Covid

Wrth i Gymru barhau i ddod at ei hun wedi effaith y pandemig, mae Chwarae Cymru'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i barhau ei draddodiad cryf o gefnogi hawl plant i chwarae.

Mae blaenoriaethu chwarae plant yn sicrhau buddiannau profedig i deuluoedd a chymunedau, a hynny'n uniongyrchol ac yn y tymor hir.

## Chwarae a lles

Chwarae yw'r ffordd fwyaf naturiol a phleserus i blant gadw'n iach a bod yn egnïol ac yn hapus. Mae chwarae'n fecaniaeth allweddol ar gyfer cyflawni a gwneud mwy na'r canllawiau gweithgarwch corfforol, datblygu gwytnwch a delio gyda straen a gorbryder. Mae'n darparu strategaethau effeithiol i blant ddelio gydag ansicrwydd ac mae'n cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol da.

Mae pob agwedd o fywyd plentyn yn cael ei dylanwadu gan eu hysfa i chwarae. Mae cyfleoedd chwarae o ansawdd yn golygu bod chwarae a gyfarwyddir ac a bennir yn bersonol yn bosibl i blant. Mae hyn yn galluogi plant i gynyddu eu gwytnwch eu hunain, cynnal eu hiechyd eu hunain, a chefnogi eu lles eu hunain.

## Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant. Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant a phlant yn eu harddegau i chwarae. Rydym yn hybu arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman ble gallai plant chwarae.

Fe gydweithiom yn agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei ddeddfwriaeth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae arloesol. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.



[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)